# Gweithdrefnau Gêm Maze Of Fortune




**Cyflwyniad**
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer MAZE OF FORTUNE (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**
Enw'r Gêm: **"MAZE OF FORTUNE"**
Rhif y Gêm: **"Game 1389"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.69 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 9,164,640 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**
Mae dwy Ardal Chwarae ar y Cerdyn Crafu, un â'r pennawd 'SCRATCH HERE FIRST – YOUR COORDINATES' ("Adran Eich Cyfesurynnau") a grid â'r pennawd 'PLAYING GRID' (y "Grid Chwarae"). I'r chwith o'r ddwy Ardal Chwarae y mae 'PRIZE TABLE' (y "Tabl Gwobrau"). Mae'r Tabl Gwobrau yn cynnwys 10 symbol, ynghyd â swm ariannol wrth ymyl pob symbol.

Mae Adran Eich Cyfesurynnau yn cynnwys 16 o fotiffau '' (y bydd eu lliwiau yn amrywio). O dan haen pob motiff '' y mae cyfesuryn sy'n cynnwys un llythyren ac un rhif ("Symbol Chwarae Cyfesuryn" yn unigol, "Symbolau Chwarae Cyfesuryn" gyda'i gilydd).

Mae'r Grid Chwarae yn cynnwys 36 o sgwariau, y mae pob un ohonynt yn cyfateb i leoliad cyfesuryn ar y Grid Chwarae. Ar frig pob colofn ar y Grid Chwarae y mae rhif o 1 (chwith bellaf) i 6 (dde bellaf) ac ar ochr chwith pob rhes ar y Grid Chwarae y mae llythyren o A (rhes uchaf) i F (rhes isaf).

I chwarae, crafwch yr haen gyfan oddi ar Adran Eich Cyfesurynnau i ddatgelu 16 o Symbolau Chwarae Cyfesuryn. Yna, crafwch dim ond y sgwariau hynny ar y Grid Chwarae sy'n cynnwys y cyfuniadau o lythrennau a rhifau sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae Cyfesuryn a ddatgelwyd o dan haen Adran Eich Cyfesurynnau. Bydd hyn yn datgelu Symbolau Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol ar gyfer y Grid Chwarae ("Symbolau Chwarae Grid Chwarae" a "Penawdau Chwarae Grid Chwarae", yn y drefn honno).

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch, ar ôl crafu'r haen oddi ar y sgwariau hynny yn y Grid Chwarae sy'n cynnwys y cyfuniadau o lythrennau a rhifau sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae Cyfesuryn a ddatgelwyd o dan haen Adran Eich Cyfesurynnau yn unig, yn datgelu tri Symbol Chwarae Grid Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae Grid Chwarae cyfatebol o dan haen y Grid Chwarae. Bydd y Wobr yn gyfwerth â'r swm ariannol a ddangosir yn y Blwch Gwobr wrth ymyl y symbol cyfatebol sy'n cyfateb i'r tri Symbol Chwarae Grid Chwarae a ddatgelwyd yn y Grid Chwarae.

Gall chwaraewyr ennill hyd at deirgwaith ar Gerdyn Crafu.

**Symbolau Chwarae Cyfesuryn ar gyfer Adran Eich Cyfesurynnau**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae Cyfesuryn | A1 | A2 | A3 | A4 | A5 | A6 |
| Symbolau Chwarae Cyfesuryn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Symbolau Chwarae Cyfesuryn | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 | C6 |
| Symbolau Chwarae Cyfesuryn | D1 | D2 | D3 | D4 | D5 | D6 |

18+

**GP GM1389**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®

| Symbolau Chwarae Cyfesuryn | E1 | E2 | E3 | E4 | E5 | E6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae Cyfesuryn | F1 | F2 | F3 | F4 | F5 | F6 |

Bydd 16 o Symbolau Chwarae yn ymddangos o dan haen Eich Adran Cyfesurynnau. Dim ond y Symbolau Chwarae Cyfesuryn y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae Grid Chwarae

| Symbolau Chwarae Grid Chwarae |  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Chwarae Grid Chwarae | **MAGGLA** | **COMPAS** | **SCROLL** | **FTPRNT** | **SGNPST** |
| Symbolau Chwarae Grid Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae Grid Chwarae | **COINS** | **NUGGET** | **MNYBAG** | **-WAD-** | **CHEST** |

Un Symbol Chwarae Grid Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae Grid Chwarae cyfatebol o dan haen y 36 o sgwariau yn y Grid Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae Grid Chwarae hynny y byddwch yn eu datgelu drwy grafu'r haen oddi ar sgwariau'r Grid Chwarae sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae Cyfesuryn a ddatgelwyd o dan haen Adran Eich Cyfesurynnau y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, yn y Tabl Gwobrau.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Symbolau | Y Gwobrau | | | |
| £3 | Magnifying Glass £3 | 794,269 | 12 | +/- 5.00% |
| £5 | Compass £5 | 671,909 | 14 | +/- 5.00% |
| £6 | Scroll £6 | 305,593 | 30 | +/- 5.00% |
| £8 | Magnifying Glass £3 + Compass £5 | 152,721 | 61 | +/- 5.00% |
| £10 | Footprints £10 | 244,338 | 38 | +/- 5.00% |
| £14 | Magnifying Glass £3 + Compass £5 + Scroll £6 | 91,683 | 100 | +/- 5.00% |
| £20 | Signpost £20 | 213,861 | 43 | +/- 5.00% |
| £40 | Coins £40 | 6,570 | 1,395 | +/- 5.00% |
| £100 | Nugget £100 | 1,246 | 7,356 | +/- 5.00% |
| £1,000 | Money Bag £1,000 | 19 | 482,350 | +/- 36.55% |
| £10,000 | Wad £10,000 | 3 | 3,054,880 | +/- 36.55% |
| £300,000 | Chest £300,000 | 3 | 3,054,880 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

18+

**GP GM1389**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 65.97% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £18,138,240 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.

18+

**GP GM1389**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®